***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Erthygl 40. (See end of Document for details)*

# YR ATODLEN

## Y CONFENSIWN, Y PROTOCOLAU, Y DATGANIADAU A'R NEILLTUADAU

### RHAN 1

### RHAN I O'R CONFENSIWN

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Atod. Rhn. 1 cymhwyswyd (2.11.2020 at ddibenion penodedig, 1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), **aau. 7(2)(a)**, 100(3); O.S. 2020/1182, **rhl. 3(2)(b)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, **4**, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2**); O.S. 2021/1243, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2**); O.S. 2021/1244, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3**); O.S. 2021/1245, erglau. 3, **4** (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, **3** (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, **ergl. 4**; O.S. 2022/894, **ergl. 3**; O.S. 2022/895, erglau. 3, **4**; O.S. 2022/896, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, **ergl. 3** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. Rhn. 1 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

*Erthygl 40*

1 Mae Partïon Gwladwriaethau yn cydnabod yr hawl sydd gan bob plentyn yr honnir neu y cydnabyddir ei fod wedi torri'r gyfraith trosedd, neu y cyhuddir ef o wneud hynny, i gael ei drin mewn modd sy'n gyson â dyrchafu synnwyr y plentyn o'i urddas a'i werth, sy'n atgyfnerthu parch y plentyn at hawliau dynol a rhyddidau sylfaenol personau eraill sy'n cymryd i ystyriaeth oedran y plentyn a'r ffaith ei bod yn ddymunol hybu ailintegreiddiad y plentyn a bod y plentyn yn derbyn rôl adeiladol mewn cymdeithas.

2 I'r perwyl hwn, ac o roi sylw i ddarpariaethau perthnasol offerynnau rhyngwladol, rhaid i Bartïon Gwladwriaethau sicrhau, yn benodol:

(a) na fydd unrhyw honiad, cyhuddiad na chydnabyddiaeth bod unrhyw blentyn wedi torri'r gyfraith trosedd oherwydd gweithredoedd neu anweithiau nad oeddent wedi eu gwahardd gan y gyfraith genedlaethol neu ryngwladol adeg eu cyflawni;

(b) bod gan bob plentyn, yr honnir ei fod wedi torri'r gyfraith trosedd neu y cyhuddir ef o wneud hynny, y gwarantau canlynol o leiaf:

(i) ei fod yn cael ei ragdybio'n ddieuog hyd nes y profir ei fod yn euog yn ôl y gyfraith.

(ii) ei fod yn cael ei hysbysu'n fuan ac yn uniongyrchol o'r cyhuddiadau yn ei erbyn, ac, os yw'n briodol, drwy ei rieni neu ei warcheidwaid cyfreithiol, ac i gael cymorth cyfreithiol neu gymorth priodol arall i baratoi a chyflwyno ei amddiffyniad;

(iii) ei fod yn cael awdurdod neu gorff barnwrol sy'n gymwys, yn annibynnol ac yn ddiduedd i benderfynu'r mater mewn gwrandawiad teg yn ôl y gyfraith, ym mhresenoldeb cynhorthwy

cyfreithiol neu gynhorthwy priodol arall ac, oni fernir nad yw er lles pennaf y plentyn, yn benodol, o ystyried ei oedran neu ei sefyllfa, ei rieni neu ei warcheidwaid cyfreithiol;

(iv) ei fod yn peidio â chael ei orfodi i roi tystiolaeth neu i gyffesu ei fod yn euog; ei fod yn cael holi tystion gelyniaethus neu beri iddynt gael eu holi ac yn cael sicrhau bod tystion ar ei ran yn cymryd rhan ac yn cael eu holi o dan amodau cydraddoldeb;

(v) os bernir ei fod wedi torri'r gyfraith trosedd, ei fod yn cael awdurdod neu gorff barnwrol uwch yn ôl y gyfraith sy'n gymwys, yn annibynnol ac yn ddiduedd i adolygu'r penderfyniad hwn ac unrhyw fesurau a osodir o ganlyniad iddo;

(vi) ei fod yn cael cynhorthwy di-dâl cyfieithydd os nad yw'r plentyn yn gallu deall neu siarad yr iaith sy'n cael ei defnyddio;

(vii) bod ei breifatrwydd yn cael ei barchu'n llawn ym mhob cam o'r rheithdrefn.

3 Rhaid i Bartïon Gwladwriaethau geisio hybu'r broses o sefydlu cyfreithiau, gweithdrefnau, awdurdodau a sefydliadau sy'n gymwysadwy yn benodol i blant yr honnir neu y cydnabyddir eu bod wedi torri'r gyfraith trosedd, neu y cyhuddir hwy o wneud hynny, ac, yn benodol:

(a) pennu oedran isaf y rhagdybir na fydd galluedd gan blant sydd oddi tano i dorri'r gyfraith trosedd;

(b) pryd bynnag y bo'n briodol ac yn ddymunol, mesurau i ymdrin â phlant o'r fath heb ddefnyddio rheithdrefn farnwrol, ar yr amod bod hawliau dynol a threfniadau diogelu cyfreithiol yn cael eu parchu'n llawn.

4 Rhaid i amryw o drefniadaethau, megis gorchmynion gofalu, cyfarwyddo a goruchwylio; cwnsela; profiannaeth; gofal maeth; addysg a rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol a dewisiadau eraill heblaw gofal sefydliadol fod ar gael i sicrhau bod plant yn cael eu trin mewn modd sy'n briodol i'w llesiant ac yn gymesur â'u hamgylchiadau a'r tramgwydd.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Croes Bennawd: Erthygl 40.